

Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:

CLEFYDAU PYSGOD

Mae clefydau fel Firws Herpes Koi (a welir yn y llun) yn lladd pysgod a gall gau pysgodfeydd.



BRIALLEN Y DŴR

Mae planhigion dŵr croyw fel briallen y dŵr yn blocio afonydd a llynnoedd gan ymyrryd â physgota. Nid yw briallen y dŵr wedi ymledu'n helaeth ym Mhrydain hyd yma ond os bydd yn lledu ymhellach, fel y gwnaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, bydd yn costio £miliynau i'w rheoli.



PERDYSSEN REIBUS

Mae'r berdysen hon yn ysglyfaethwr gwancus ac yn lladd anifeiliaid bychain eraill fel ein perdysen frodorol a physgod ifanc, a gall hyn effeithio'n sylweddol ar yr holl ecosystem. Mae ei maint bychan (3 cm ar y mwyaf) yn golygu y gallai'n hawdd guddio ar rwydi ac esgidiau dŵr tamp, lle y gall oroesi am bythefnos.



ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

nonnativespecies.org/checkcleandry

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol



Lluniau gan Trevor Renals ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ydych chi'n mynd i bysgota?



Carp with Koi Herpes Virus

Mae clefydau a phlanhigion ac anifeiliaid ymosodol yn lladd pysgod ac yn blocio dyfrffyrdd

Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich offer

EDRYCH

GOLCHI

SYCHU

Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o wahanol rywogaethau eisoes wedi eu canfod yn ein llynnoedd, ein hafonydd a dyfrffyrdd eraill ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.

Maent yn achosi prblemau amgylcheddol difrifol all fod yn ddi-droi'n ôl – megis lladd pysgod drwy ledaenu clefydau a gostwng lefelau ocsigen yn y dŵr, cystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwylt brodorol arall, ac achosi niwed i ecosystemau. Mae planhigion ymosodol hefyd yn tagu dyfrffyrdd, gan ei gwneud yn anodd pysgota a chynyddu'r risg o lifogydd.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu'r amgylchedd a'r pysgota a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn lân o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

EDRYCH

Edrychwch ar eich gêr ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am fwd, anifeiliaid dŵr neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i adael yn y fan a'r lle.

GOLCHI

Golchwch bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i rwydi, esgidiau pysgota a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt. Defnyddiwch ddŵr poeth os yn bosibl.

SYCHU


Sychwch bopeth cyn hired â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall gan y gall rhai planhigion ac anifeiliaid ymosodol oroesi am bythefnos dan amodau tamp.

ATAL YR YMLEDIAD

Mae hyd yn oed yn bwysicach **Edrych Golchi Sychu** os ydych chi'n mynd â'ch offer dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.

Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.

Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o nonnativespecies.org/checkcleandry